ADEILADWCH EICH FFYDD YNG NGWNEUTHURWR DYN

Nodyn i'r siaradwr:
Gall llawer o bethau wanhau ein ffydd. Rhaid i ni eu 'nabod nhw fel y medrwn ni gadw'n ffydd yn gadarn a pheidio â chaniatáu i ddim i achosi inni golli ffydd. Manteisiol fyddai inni astudio enghreifftiau o'r rheiny a ddangosodd ffydd gadarn yn Nuw a'u hefelychu nhw. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn helpu eraill o'n cwmpas i adeiladu eu ffydd

MAE'N HANFODOL BWYSIG ADEILADU FFYDD 'NAWR (9 mun.)

Efallai y dywedwch, 'Mae gennyf ffydd,' ond pa mor gryf ydyw?

'Ydych chi'n sylweddoli'r anawsterau sy'n wynebu'ch ffydd?

Nodwedd arbennig ein hoes ni yw colli ffydd (*w*89 7/15 22-3)

Mae llawer dylanwad sy'n achosi gwanhau: meddwl materol, pryderon ynglŷn â gwaith a chostau byw, diddordeb gormodol mewn gwleidyddiaeth a champau gwyddonol, syniadau megis esblygiad, cadw cwmni pobl nad ydynt yn byw yn ôl safonau'r Beibl, dihangdod drwy gyfrwng adloniant a chwaraeon (*w*89 10/1 15-20)

'Ydi'r rhain wedi effeithio ar eich ffydd chi? 'Wnân' nhw?

Pwysleisia'r Beibl bwysigrwydd ffydd (Heb 11:6)

'Fedrwn ni ddim cymryd ffydd yn ganiataol

Hyd yn oed yn amser yr apostolion, anogwyd Cristionogion i ymladd o blaid y ffydd (Jwdas 3)

Pa mor gadarn yw eich ffydd chi? ffydd eich teulu? (*w*86 7/15 21-6)

Nid hygoeledd yw ffydd; mae wedi'i seilio ar dystiolaeth diriaethol (*it*-1 804)

Mae llawer sy'n gwawdio'r ffydd Gristionogol yn amlygu ffydd mewn ffyrdd eraill

Mae gwyddonwyr yn dangos ffydd yn narganfyddiadau'r gorffennol ynglŷn â "deddfau natur"

O ffermwr i ffisegydd, maent oll yn dangos ffydd yn sefydlogrwydd deddfau naturiol (Preg 1:5-7; *w*77 227-31; *ce* 118-25)

Cymer amser ac ymdrech i gasglu tystiolaeth argyhoeddiadol yn sail i ffydd (Heb 11:1; *w*87 7/15 5)

Fel llunir adeilad mawr gyda blociau adeiladu unigol, felly seilir ffydd ar "flociau" unigol o dystiolaeth wedi'u gosod yn ofalus yn rhes mewn perthynas â'i gilydd (*w*87 7/15 5)

Mae pob "bloc" yn ychwanegu tystiolaeth i fodolaeth Duw, mai ef yw'r Creawdwr, fod ganddo fwriad ar gyfer y greadigaeth

TYSTIOLAETH HELAETH, "BLOCIAU ADEILADU," I ADEILADU FFYDD YN NUW (7 mun.)

Mae gwybod fod gennym Wneuthurwr, Creawdwr, yn helpu i adeiladu ffydd (Rhuf 1:20; Heb 3:4; *w*87 7/15 5)

Nid barn yn unig; gwyddom fod y ddaear yn bodoli a'n bod ninnau'n bodoli

Dywedodd Paul fod y greadigaeth ynddi'i hun yn sail i ffydd

Mae gwybodaeth am y greadigaeth yn cydweithredu gyda gair, neu neges Duw (Salm 19:1-4; Rhuf 10:17-18)

Mae'r datguddiad oddi wrth Dduw yn y Beibl yn ychwanegu at ein ffydd

Mae tystiolaeth helaeth mai llyfr a ysbrydolwyd gan Dduw yw'r Beibl (2Tim 3:16; *w*87 7/15 5-6)

Cytgord ei holl ysgrifenwyr dros rychwant o 16 canrif

Gwir wyddoniaeth, gan gynnwys archaeoleg, wedi tystio i'w ddilysrwydd a'i ddibynadwyedd

Tystiolaeth proffwydoliaethau a gyflawnwyd (*w*87 7/15 6; *ce* 216-31; *si* 344-6)

Cyflawnwyd ugeiniau o broffwydoliaethau yn Iesu yn unig (*si* 343-4)

Dibynadwyedd addewidion Duw yn rheswm dros i ni gael ffydd (Jos 21:43, 45; 23:14)

Prawf ei fod yn cyflawni ei addewidion yw iddo waredu Israel o'r Aifft

Coffeir y digwyddiad hwnnw gan Iddewon hyd at ein dydd ni

'Roedd yn ddigwyddiad a argraffwyd ar eu cydwybod genedlaethol

Mae rhoi'r "blociau" at ei gilydd yn rhoi sail ffydd gadarn yn Nuw

MAE'N ANGENRHEIDIOL ADEILADU FFYDD YN WEITHREDOL (9 mun.)

'Dyw'r ffaith fod gennych ffydd ddim yn golygu nad oes rhaid gweithredu i gynnal eich ffydd

Dywedwyd wrth Gristionogion Eneiniog mai "pechod sy'n ein maglu mor rhwydd" yw diffyg ffydd (Heb 12:1; *it*-1 805)

Gallai ffydd unrhyw un ohonom wanhau; fe ofynnodd yr apostolion hyd yn oed am gryfhau eu ffydd (Lc 17:5)

Mae gennym lawer o enghreifftiau da o rai yn y gorffennol a gynhaliodd ffydd gadarn yn Nuw

'Roedd Noa yn un a adeiladodd ffydd yn ein Gwneuthurwr

Fe welodd y greadigaeth weledig fel y gwnawn ni

Gallai weld i air Duw ddod yn wir (Gen 3:16-19)

'Doedd ganddo mo'r Beibl na phroffwydoliaethau cyflawnedig

Er hynny 'roedd ganddo'r ffydd y byddai dilyw gan ddangos y ffydd honno drwy adeiladu arch (Heb 11:7; *it*-2 507; *w*89 10/1 11; *w*87 1/15 12)

Mae chwedlau'r Dilyw i'w cael mewn llawer gwlad (*gm* 116; *it*-1 328, 610-11; *w*86 9/15 4-5)

Eto ni adeiledir ffydd ar chwedlau, ond ar dystiolaeth ddibynadwy Gair Duw (Lc 17:26, 27; 2Pedr 2:5)

’Roedd Abraham yn enghraifft arbennig arall o ffydd (Heb 11:8-10; *it*-1 804; *w*87 1/15 12)

Efallai iddo dderbyn ei ddealltwriaeth drwy gymdeithasu’n bersonol â Sem (*it*-1 29)

Gadawodd ei gartref yn Ur, “heb wybod i ble’r oedd yn mynd” (Gen 12:1-3)

Yn ddewr fe gyhoeddodd enw Duw (Gen 12:8; 13:18; 21:33)

Ni ddychwelodd i Ur yn ystod y newyn yng Nghanaan (Gen 12:10; 13:1, 3; Heb 11:15)

Enwaedwyd arno (Gen 17:22-27; *w*89 7/1 19-21)

Credai yn yr atgyfodiad (Heb 11:19; *it*-1 804)

’Ydych chi’n gweithredu i adeiladu’ch ffydd? ’Ydych chi’n gweithredu i adeiladu ffydd eraill?

GWEITHREDWCH I ADEILADU’CH FFYDD EICH HUN A FFYDD ERAILL (15 mun.)

Rhaid wrth ffydd iach i fodloni Duw (Tit 2:2; Heb 11:6; *w*89 10/1 15, 19-20)

Y tebyg yw fod eich ffydd wedi tyfu oddi ar eich bedyddio; parhewch i gynyddu yn eich ffydd

’Fedrwn ni ddim bod mor brysur yn helpu eraill fel yr anwybyddir ein ffydd ein hunain

Pethau y medrwn eu gwneud: astudio personol, gweddïo’n ddibaid, mynychu cyfarfodydd y gynulleidfa yn rheolaidd, bod â rhan mewn gweithredoedd ffydd (*w*84 6/1 8-12)

’Oes angen i chi roi mwy o bwyslais ar astudio sy’n adeiladu ffydd?

Rhaid inni beidio â bod mor brysur fel ein bod yn esgeuluso darllen Gair Duw a myfyrio ynddo

Gweddïwch am eich ffydd a ffydd pobl eraill (Lc 22:31, 32)

Daw ffydd yn gadarnach o’i harfer hi (Iago 2:22)

Helpwch aelodau eich teulu i adeiladu ffydd

’Ydych chi’n ystyried sut i wneud hyn?

Efelychwch esiampl Abraham, tad i bawb sydd ganddynt ffydd (Rhuf 4:11)

Dysgodd “ffordd yr ARGLWYDD” i’w dylwyth (Gen 18:19; *w*89 7/1 20)

Gall rhieni helpu plant drwy resymu â nhw ynglŷn â’r greadigaeth (Eglurwch gydag enghraifft neu ddwy o *g*68 3/8 3-8; gweler hefyd *fl* 105)

’Dyw’r ffaith fod gan rieni ffydd ddim yn golygu y bydd gan y plant ffydd

Rhaid iddynt hwythau adeiladu ffydd ar dystiolaeth gadarn (*yp* 308)

Mae angen eu rhaglen astudio personol eu hunain arnynt

Mewn cartref rhanedig, gall y credadun adeiladu ffydd y plant (2Tim 1:5)

Bydd eich esiampl ffyddlon hefyd yn eu helpu i adeiladu ffydd

Dylai henuriaid fod yn ymwybodol o’r angen i adeiladu ffydd y gynulleidfa (Eff 4:11-13)

Nid dim ond trefnwyr ac athrawon ffeithiau

Helpwch eraill i weld y byddant, wrth gyfrannu yn y gwaith pregethu, yn dangos ac yn adeiladu eu ffydd fel y gwnaeth Noa (2Pedr 2:5)

Arweiniwch mewn gweithredoedd ffydd; gosodwch esiampl dda (Heb 13:7; *w*89 12/15 21)

AMLYGWCH FFYDD BOB DYDD WRTH I CHWI EDRYCH YMLAEN AT Y DYFODOL (5 mun.)

Gall ffydd ein helpu i symud rhwystrau sydd megis mynyddoedd (Mc 11:22-24; *w*87 7/15 3-4)

Pan gwyd rhwystrau o’r fath i’ch ffydd yn y gwaith, yn yr ysgol, yn ein hymwneud â pherthnasau, neu wrth drin problemau, ’fyddwch chi’n dangos ffydd yn Nuw drwy wneud yr hyn a gynghora ef? ’Ydi’ch ffydd chi mor gryf, mor gadarn â hynny?

Mae gweithredoedd ffydd yn cynnwys rhagor na wynebu problemau anferth

Golyga hefyd sut ’rydym yn byw ein bywyd o ddydd i ddydd (Iago 2:14-17, 20)

Cyffelybodd Iesu yr oes hon i ddydd Noa, gŵr â ffydd (Mth 24:37-42)

Byddwch fel Noa, gan adeiladu eich ffydd yn gyson

Byddwch yn wyliadwrus, yn ymwybodol o ewyllys Duw, yn weithgar yn y gwaith pregethu

Mae angen ffydd ’nawr yn fwy nag erioed o’r blaen

Mae’n werth buddsoddi amser ac ymdrech mewn ffydd (In 3:16)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. ’Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. ’Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)

© 1993 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania